Canolfan Weithgareddau Parc Gwledig Pen-bre

Telerau ac Amodau Cyffredinol

1. Derbyn Telerau

Drwy archebu, mynychu gweithgaredd, neu ddefnyddio cyfleusterau Canolfan Weithgareddau Parc Gwledig Pen-bre ("y Ganolfan"), mae cyfranogwyr yn cytuno i gydymffurfio â'r Telerau ac Amodau hyn.

2. Archebion a Thaliadau

1. Mae pob archeb yn ddibynnol ar y lle sydd ar gael.
2. Rhaid talu'r ffi lawn wrth wneud archeb.
3. Mae arweinwyr grŵp yn gyfrifol am sicrhau bod nifer y cyfranogwyr a'r wybodaeth a ddarperir yn gywir, ac yn gyfrifol yn gyffredinol am eu grŵp.

3. Gofynion y Cyfranogwyr

1. Rhaid i gyfranogwyr ddilyn yr holl gyfarwyddiadau a roddir gan staff y Ganolfan a/neu arwyddion sy'n berthnasol i'r gweithgaredd bob amser.
2. Rhaid i gyfranogwyr ymddwyn mewn ffordd ddiogel a pharchus tuag at staff, ymwelwyr a chyd-gyfranogwyr.
3. Mae'r Ganolfan yn cadw'r hawl i wrthod cyfranogiad neu i ofyn i unrhyw unigolyn adael os bernir bod ei ymddygiad yn anniogel, yn tarfu ar eraill, yn ymosodol, neu os yw o dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau.
4. Rhaid gwisgo dillad ac esgidiau priodol sy'n addas ar gyfer y gweithgaredd a'r tywydd.

4. Cyflyrau Meddygol ac Anghenion Ychwanegol

1. Rhaid i gyfranogwyr ddatgelu unrhyw gyflyrau meddygol, alergeddau, anafiadau, anableddau, neu anghenion cymorth ychwanegol a allai effeithio ar eu gallu i gymryd rhan yn y gweithgareddau.
2. Mae'r Ganolfan yn cadw'r hawl i gyfyngu ar gyfranogiad os gallai iechyd neu ddiogelwch gael ei beryglu.
3. Mae cyfranogwyr yn parhau i fod yn gyfrifol am gario unrhyw feddyginiaeth ar bresgripsiwn sy'n ofynnol yn ystod gweithgareddau.
4. Rhaid i rieni, gwarcheidwaid, athrawon, neu arweinwyr grŵp sicrhau bod yr holl wybodaeth feddygol berthnasol yn cael ei darparu cyn cymryd rhan.

5. Iechyd a Diogelwch

1. Diogelwch yw blaenoriaeth uchaf y Ganolfan.
2. Rhaid i bob cyfranogwr fynychu sesiynau briffio diogelwch lle bo angen.

3. Rhaid i gyfranogwyr wisgo unrhyw offer diogelwch a ddarperir a'i ddefnyddio'n gywir.
4. Gall peidio â dilyn cyfarwyddiadau diogelwch arwain at gael eich tynnu o'r gweithgaredd heb hawl i ad-daliad.

6. Cydnabyddiaeth o Risg

1. Mae gweithgareddau awyr agored ac anturus yn cynnwys risgiau cynhenid na ellir eu dileu'n llwyr.
2. Drwy gymryd rhan, mae unigolion yn cydnabod ac yn derbyn y risgiau hyn.
3. Bydd y Ganolfan yn cymryd pob cam rhesymol i reoli a lleihau risgiau yn unol â'r ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch berthnasol.

8. Damwain/digwyddiadau

Rhaid rhoi gwybod am bob damwain/digwyddiad i aelod o'r tîm yn syth a chyn gadael y safle.

7. Goruchwylio Plant Dan Oed

1. Rhaid i ysgolion, grwpiau ieuenctid neu grwpiau wedi'u trefnu ddarparu goruchwyliaeth ddigonol yn unol â gofynion y Ganolfan.
2. Mae arweinwyr grwpiau yn parhau i fod yn gyfrifol am ymddygiad a lles cyfranogwyr pan nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau dan oruchwyliaeth.

8. Canslo ac Ad-daliadau

Gan Gyfranogwyr

1. Os caiff archeb ei chanslo mwy na 7 diwrnod cyn dyddiad y gweithgaredd, gellir rhoi ad-daliad llawn ar ôl didynnu ffi weinyddol o 10%.
2. Os caiff archeb ei chanslo o fewn 7 diwrnod i ddyddiad y gweithgaredd, ac nad oes unrhyw ddyddiadau eraill addas o fewn y 7 diwrnod cyn eich archeb, ni roddir ad-daliad am y gweithgaredd.
3. Bydd methu â mynychu gweithgaredd yn arwain at golli unrhyw ffioedd a dalwyd.

Gan y Ganolfan

1. Mae'r Ganolfan yn cadw'r hawl i ganslo, gohirio neu newid gweithgareddau oherwydd y tywydd, gofynion gweithredol, pryderon diogelwch, niferoedd annigonol, neu amgylchiadau y tu hwnt i'w rheolaeth.
2. Lle bo'n bosibl, cynigir dyddiadau neu weithgareddau eraill.
3. Os na ellir trefnu dewis arall addas, gellir rhoi ad-daliad yn ôl disgresiwn y Ganolfan.

9. Tywydd

1. Gall gweithgareddau gael eu cynnal yn y rhan fwyaf o amodau tywydd.
2. Dylai cyfranogwyr gyrraedd wedi paratoi ar gyfer newidiadau yn y tywydd.
3. Mae'r Ganolfan yn cadw'r hawl i addasu neu ganslo gweithgareddau os ystyrir bod amodau yn anniogel.

10. Offer

1. Mae'r offer a ddarperir gan y Ganolfan yn parhau i fod yn eiddo i'r Ganolfan.
2. Mae'n rhaid i gyfranogwyr gymryd gofal rhesymol o'r holl offer.
3. Gall difrod a achosir trwy gamddefnyddio, esgeulustod, neu weithred fwriadol arwain at godi tâl am atgyweirio neu gyfnewid yr eitem.
4. Gellir archwilio offer personol cyn iddo gael ei ddefnyddio.

11. Eiddo Personol

1. Mae cyfranogwyr yn gyfrifol am eu heiddo personol.
2. Nid yw'r Ganolfan yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am eiddo personol a gaiff ei golli, ei ddwyn neu ei ddifrodi oni bai ei fod wedi'i achosi gan esgeulustod y Ganolfan.

12. Ffotograffiaeth a'r Cyfryngau

1. Gellir tynnu ffotograffau a recordiadau fideo at ddibenion hyrwyddo, hyfforddi neu addysgol.
2. Gall cyfranogwyr ddewis peidio â chael eu cynnwys mewn ffotograffau drwy roi gwybod i staff y Ganolfan cyn i'r gweithgareddau ddechrau.
3. Bydd data personol a delweddau yn cael eu trin yn unol â deddfwriaeth diogelu data berthnasol.

13. Diogelu Data

1. Bydd gwybodaeth bersonol a gaiff ei chasglu gan y Ganolfan yn cael ei phrosesu yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016 (UK GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018.
2. Dim ond at ddibenion gweithredol, diogelwch a gweinyddol dilys y bydd gwybodaeth yn cael ei defnyddio.

14. Atebolrwydd

1. Ni fydd y Ganolfan yn atebol am anaf, colled, neu ddifrod sy'n deillio o fethu â dilyn cyfarwyddiadau, camddefnyddio offer, neu gamymddwyn bwriadol gan gyfranogwyr.
2. Nid oes unrhyw beth yn y Telerau ac Amodau hyn yn eithrio nac yn cyfyngu ar atebolrwydd am farwolaeth neu anaf personol sy'n deillio o esgeulustod neu unrhyw atebolrwydd arall na ellir ei eithrio yn ôl y gyfraith.

15. Force Majeure

Ni fydd y Ganolfan yn atebol am unrhyw fethiant neu oedi wrth gyflawni ei rhwymedigaethau os yw'r methiant hwnnw'n deillio o amgylchiadau y tu hwnt i'w rheolaeth resymol, gan gynnwys tywydd garw, trychinebau naturiol, anghydfodau diwydiannol, argyfyngau iechyd cyhoeddus neu gyfyngiadau'r llywodraeth.

16. Cwynion

Dylid cyflwyno unrhyw gwynion i Dîm Rheoli'r Ganolfan cyn gynted â phosibl ac fel arfer o fewn 28 diwrnod i ddyddiad y gweithgaredd.

17. Newidiadau

Mae'r Ganolfan yn cadw'r hawl i newid y Telerau ac Amodau hyn ar unrhyw adeg. Bydd y fersiwn sydd mewn grym ar adeg archebu yn berthnasol.

18. Cyfraith Lywodraethol

Bydd y Telerau ac Amodau hyn yn cael eu llywodraethu a'u dehongli yn unol â chyfreithiau Cymru a Lloegr.